**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd Fforwm y Cadeiryddion

15 Hydref 2025

Annwyl Lywydd

Ymgynghoriad: Adolygu Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd

Diolch am eich llythyr dyddiedig **8 Gorffennaf 2025**. Trafodwyd yr ymgynghoriad yn ein cyfarfod ar **22 Medi** a chytunwyd ar y cyflwyniad hwn yn ein cyfarfod ar 13 Hydref.

## Cylch gorchwyl

Fel y gwyddoch, mae cylch gwaith y Pwyllgor yn eithriadol o eang. Canlyniad y cylch gwaith eang hwn yw nad ydym yn credu bod y dull gweithredu yn gweithio fel y'i ffurfir ar hyn o bryd, oherwydd nid yw'n bosibl rhoi ystyriaeth ddyledus i'r meysydd polisi sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor ac ar yr un pryd gyflawni ein rhwymedigaethau o dan y rheolau sefydlog yn briodol. Mae nifer y dogfennau, deddfwriaeth a phapurau cysylltiedig a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn enfawr ac mae maint y gwaith hwn yn effeithio ar y penderfyniadau y mae'n rhaid i ni eu gwneud.

Mae'r gofyniad i'r Pwyllgor ganolbwyntio ar ddeddfwriaeth, gan gynnwys y nifer gynyddol o femoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau a gyflwynir i Senedd y DU, wedi effeithio ar ein gallu i gael y capasiti angenrheidiol i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn y ffordd fwyaf effeithiol ym meysydd polisi cyfiawnder, materion allanol, a'r sbectrwm eang o faterion sy'n ymwneud â'r cyfansoddiad.

Yn aml, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor weithio i derfynau amser byr, ac yn achos memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol o fewn dyddiau i'r memoranda hynny gael eu gosod. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y Pwyllgor wedi gosod 172 o adroddiadau yn ystod y Chweched Senedd. Mae'r adroddiadau hyn yn ymwneud yn bennaf â'n gwaith craffu ar Filiau a chraffu ar femoranda

cydsyniad deddfwriaethol, ond mae'r ffigur hefyd yn cynnwys ein hadroddiadau ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn fasnachol, ein hadroddiadau blynyddol, a'r gwaith ymchwilio cyfyngedig yr ydym wedi gallu ei wneud ar fframweithiau a materion cyffredin mewn perthynas â llywodraethu'r DU a'r UE. Nid yw'r ffigur yn cynnwys yr adroddiadau rydyn ni'n eu cynhyrchu ar eitemau unigol o, hyd yn hyn, dros 600 o eitemau o is-ddeddfwriaeth.

Credwn fod llwyth gwaith deddfwriaethol y Pwyllgor wedi effeithio ar ein gallu i ymgysylltu â dinasyddion. Mae materion cyfansoddiadol yn hanfodol er mwyn deall swyddogaethau'r Senedd, ei phwrpas a sut mae'n gweithredu. Po fwyaf yw'r ddealltwriaeth o'r Senedd, y mwyaf tebygol yw y bydd gan ddinasyddion hyder wrth ymgysylltu â'r Senedd a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Er enghraifft, datblygodd y pwyllgor a’n rhagflaenodd ei strategaeth ymgysylltu â dinasyddion ei hun a chynnwys panel dinasyddion ar ei ymchwiliad i lywodraethiant y DU a’r UE ar ôl Brexit. Er na ellid adeiladu ar hyn ar ddiwedd y Bumed Senedd oherwydd llwyth gwaith cynyddol y pwyllgor hwnnw wrth graffu ar ddeddfwriaeth yn ymwneud ag ymadawiad y DU o'r UE a phandemig Covid-19, mae cyfleoedd i fwrw ymlaen â gwaith tebyg yn y Chweched Senedd wedi bod yn gyfyngedig o ganlyniad i gylch gwaith eang y Pwyllgor a'i llwyth gwaith deddfwriaethol.

O ganlyniad i hynny, credwn y byddai’n fuddiol ystyried dull gwahanol o ran sut mae materion o fewn ein cylch gwaith presennol yn cael eu dosbarthu i fwy nag un pwyllgor yn y Senedd er mwyn sicrhau'r bod gwaith craffu gan y Pwyllgorau mor effeithiol â phosibl. I roi cyd-destun, ymdrinnir â chylch gwaith y Pwyllgor gan y pwyllgorau canlynol mewn seneddau eraill y DU; gan nad yw 'cyfiawnder' wedi'i ddatganoli'n llawn i'r Senedd, nid ydym wedi cynnwys pwyllgorau sy'n cwmpasu'r swyddogaethau cyfiawnder. Gall y pwyllgorau seneddol hyn ddarparu modelau i'w hystyried yn y Seithfed Senedd:

i. Senedd yr Alban: Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant a'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio'r Gyfraith

ii. Tŷ’r Arglwyddi: Pwyllgor y Cyfansoddiad, y Pwyllgor Materion Ewropeaidd, y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, y Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol, a'r Pwyllgor Craffu ar Ddeddfwriaeth Eilaidd

iii. Tŷ’r Cyffredin: Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol ac Offerynnau Statudol (Pwyllgor Dethol).

iv. Cyd-bwyllgorau Senedd y DU: Offerynnau Statudol a Cydgrynhoi, &c., Biliau

## Maint

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod aelodaeth o bedwar yn rhy fach ac y gall, o dan rai amgylchiadau, effeithio ar ei effeithiolrwydd.

Y cworwm ar gyfer pwyllgor o bedwar yw tri aelod; gall hyn wneud pethau'n heriol iawn pan nad yw aelod yn gallu mynd i gyfarfod ac nad oes dirprwy ar gael. Er enghraifft, o ystyried natur arbenigol gwaith y Pwyllgor, mae cynnal sesiynau tystiolaeth pan mae safbwynt a gwybodaeth benodol un aelod o'r pwyllgor am y cylch gwaith eang ar goll yn gallu lleihau effeithiolrwydd y Pwyllgor, yn enwedig yr angen i ymchwilio i rai materion penodol. Gall hefyd fod yn broblemus mewn lleoliad hybrid os mai dim ond tri aelod sy'n bresennol a bod problemau technegol yn codi i un neu fwy o aelodau.

Byddai'n well gennym gael o leiaf chwe aelod, a fyddai'n lliniaru rhai o'r pwyntiau y cyfeirir atynt uchod ond a fyddai hefyd â'r fantais o ganiatáu i amrywiaeth Aelodau etholedig y Senedd gael ei hadlewyrchu'n well yn aelodaeth y Pwyllgor.

## Slotiau cyfarfod

Mae'r rhan fwyaf o aelodau'r pwyllgor o'r farn bod natur gwaith y Pwyllgor wedi elwa o gael slot cyfarfod ar ddydd Llun yng nghalendr Busnes wythnosol y Senedd. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bwyllgorau'r Senedd sy'n cyfarfod ar ddydd Llun ymdopi â gwrthdaro â chyfarfodydd Cabinet Llywodraeth Cymru, sydd wedi effeithio ar sut mae'r Pwyllgor wedi gallu cynnal ei fusnes. Er bod y Pwyllgor bob amser wedi ceisio darparu ar gyfer y rhai sy'n mynychu'r Cabinet, mae hyn wedi peri trafferth ar adegau. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu gweld Fforwm y Cadeiryddion a'r Pwyllgor Busnes yn sefydlu disgwyliad y bydd aelodau Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu ceisiadau i fynd i gyfarfodydd pwyllgorau'r Senedd dros ymrwymiadau eraill; mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun y cyfyngiadau amser yn ystod gwaith craffu ar Filiau.

O ystyried y dyddiadau cau sy'n berthnasol i waith craffu ar is-ddeddfwriaeth o dan Reolau Sefydlog 21 a 27, bydd yn rhaid i'r Pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 21 gyfarfod yn wythnosol, waeth beth fo'r model gweithredu busnes a ddewisir yn y Seithfed Senedd.

## Cymorth allanol i bwyllgorau'r Senedd

Wrth i ni ystyried eich llythyr, trafodwyd pa ddulliau newydd eraill o wella effeithiolrwydd pwyllgorau y gallai Fforwm y Cadeiryddion a'r Pwyllgor Busnes eu hystyried.

Er enghraifft, rydym yn ymwybodol, yn 2021, bod Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban wedi penodi panel o gynghorwyr academaidd i gefnogi gwaith y Pwyllgor mewn perthynas â materion cyfansoddiadol a'r berthynas yn y dyfodol â'r UE gan gynnwys yr effaith ar ddatganoli.

Er bod dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn gyfrifoldeb Aelodau etholedig y Senedd, rydym o'r farn y gallai fod yn fuddiol archwilio pa gyngor arbenigol allanol y gellid ei wneud yn fwy hygyrch iddynt i bwyllgorau.

Gobeithiwn y bydd y sylwadau hyn ar ein gwaith yn y Chweched Senedd o gymorth ichi wrth ichi ystyried ffyrdd o sicrhau bod swyddogaeth craffu'r pwyllgorau yn y Seithfed Senedd mor effeithiol â phosibl.

Yn gywir,

Mike Hedges

Mike Hedges
Cadeirydd